



**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR
20 GORFFENNAF 2017**

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

2.0 Cefndir

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod gofynion penodol ar gyff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4.0 Goblygiadau ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith o ran cydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Atodiadau

8.1 Datganiad Llwyodraethu Blynyddol 2016/17

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r datganiad yma yn adlewyrchiad priodol o drefniadau llywodraethu GwE. Nodir for gwaith o ddiweddarar'r trefniadau yn digwydd ar hyn o bryd. Mae angen bellach symud ymlaen i gwblhau y diwigiadau i'r trefniadau rhwng awdurdod.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r adolygiad o'r gwasanaeth gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn Ionawr 2015, gydag adolygiad pellach gan Estyn yn Ebrill 2016, wedi cynorthwyo GwE i adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, ac mae ymrwymiad wedi ei wneud i ymateb i'r adroddiadau hyn. Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2016/17.

Er hynny, mae rôl allweddol a her sylweddol i aelodau'r Cyd-bwyllgor (yn arbennig y Cyngorwyr a'r Prif Swyddogion Addysg o'r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, ynghyd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth) i gydweithio er mwyn sicrhau fod GwE yn cyflawni'r cyfrifoldebau'n effeithiol, er budd ysgolion a disgyblion y rhanbarth, ac yn datblygu'n bositif er mwyn sicrhau parhad y cytundeb rhwng y 6 awdurdod.